

Effaith Capilari

"Dwi am ddangos bod dŵr yn gallu mynd i fyny'r allt!"

Mae dŵr yn hoffi glynu at bethau, mae o'n fwy gludiog na 'dach chi'n fed-dwl – gwlychu darn o bapur a'i roi ar wydr - sticio!

Arbrawf 1 - Mrs Huws

Gwydrau, dŵr, papur toilet + food colouring. Gadael i hwn wneud ei wneud - cyfle i egluro be' sy'n digwydd, sef:

Mae moleciwlau dŵr yn glynu yn nhu mewn y tyllau sydd yn y papur (*tyllau mân, mân iawn*). Unwaith mae un twll yn llawn mae'r dŵr yn symud i'r twll nesaf. Wrth fynd, am ei fod o'n ownd wrth y dŵr sydd tu ôl iddo fo, mae o'n tynnu dŵr efo fo. Dyna pam ei fod yn gallu mynd i fyny dros ymyl y gwydr ac i'r gwydr nesaf.


Jîns yn gwlychu at y benglin pan nad ydi'r gwair gwlyb ond dros top y sgidiau! **Pwy sydd gan enghreifftiau o ddŵr yn 'symud' neu ddringo fel hyn?** Cofiwch byth â gadael tywel bath y hognian dros rochor!

Arbrawf 2. Y plant: – gwydrau, dŵr a phapur toilet.

Wrth i'w harbrofion nhw weithio, siarad am goed a sut maen nhw'n cael dŵr o'r gwreiddiau i'r dail.

Mae **coeden** yn tynnu dŵr o'r tir, drwy'r gwreiddiau ac i fyny'r bonyn drwy **effaith capillary**. Mae coeden yn llawn o ddŵr (*anodd ydi llosgi brigau ffres!*) ers roedd hi'n goeden fach. Unwaith mae'r goeden yn 'llawn', mi fydd y dŵr sy'n anweddu o'r dail yn tynnu dŵr newydd i fyny'r goeden i helpu'r effaith capilari. Ac mae hynny'n cario'n ei flaen.

effaith



dŵr yn



dŵr yn cael ei



gan wreiddiau